



At Bob Prif Swyddog Cynllunio

29 Tachwedd 2013

Annwyl Gyfaill,

Y FFRAMWAITH MONITRO STRATEGOL

Ysgrifennodd fy nghydweithiwr, Max Hampton, atoch chi ar 4 Medi 2013 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy. Yn awr, ysgrifennaf innau atoch i roi rhagor o fanylion i chi cyn casglu'r data'n ffurfiol o fis Ebrill 2014 ymlaen.

Rydyn ni'n ddiolchgar i Gymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru am ei gwaith yn profi'r gyfres o Ddangosyddion Datblygu Cynaliadwy ac yn ein helpu i gwblhau'r gwaith arnynt. Soniwyd ym mis Medi y byddem yn cynnal cyfnod prawf, gan gasglu data am gyfnod o chwarter cyn dechrau casglu'n ffurfiol y flwyddyn ariannol nesaf. Byddai'n ddefnyddiol iawn i ni pe gallech chi ein helpu gyda'r cyfnod prawf hwn ar gyfer chwarter olaf y flwyddyn ariannol hon (hynny yw, Ionawr 2014- Mawrth 2014). Mae'r ffurflen ar gyfer cofnodi'r data'n atodedig.

Hefyd ym mis Medi, soniwyd y dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried, wrth drafod gyda'u cyflenwr meddalwedd, pa newidiadau y gall fod eu hangen i'w systemau er mwyn sicrhau y gallant gofnodi'r data sydd eu hangen ar gyfer y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy, gyda'r nod o leihau faint o fewnbynnu data â llaw y bydd yn rhaid ei wneud.


Fel y dywedwyd eisoes, rydym hefyd yn ceisio gwneud newidiadau er mwyn symleiddio'r broses. Rydwn ni'n gweithio gyda'r Porthol Cynllunio i wneud newidiadau i'r ffurflen 1APP fel bod data ychwanegol, megis capasiti arfaethedig o ran allbwn ynni adnewyddadwy, yn cael eu casglu o'r ffynhonnell wreiddiol. Y nod yw rhoi'r newidiadau hyn ar waith er mwyn casglu'r data o fis Ebrill 2014 ymlaen.

Ar hyn o bryd rydwn ni'n ystyried ceisio datblygu system TGCh i Gymru gyfan fel y bo modd llwytho'r wybodaeth yn awtomatig o systemau awdurdodau cynllunio lleol i system Llywodraeth Cymru. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn yn ystod 2014.



Diolch am eich cymorth gyda'r gwaith o roi'r newidiadau angenrheidiol ar waith cyn i'r gwaith ffurfiol o gasglu'r data ddechrau yn y flwyddyn ariannol nesaf. Os hoffech unrhyw wybodaeth bellach ynghylch y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy, cysylltwch â Max Hampton ar 02920 82 6166 neu max.hampton@wales.gsi.gov.uk.

Yn gywir,



Rosemary F Thomas

Prif Gynllunydd
Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Gynllunio
Yr Adran Dai ac Adfywio
Llywodraeth Cymru